# Rheoliad gwasanaethau radio cymunedol

## Datganiad ar y drefn ar gyfer ystyried newidiadau i ymrwymiadau allweddol gorsaf ac agweddau eraill o reoliad radio cymunedol

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 18 Medi 2008

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb | 1 |
| 2 | Cefndir | 4 |
| 3 | Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 7 |
| 4 | Penderfyniad a chamau nesaf | 13 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ffurflen gais newid ymrwymiadau allweddol | 17 |
| 2 | Nodweddion gwasanaethau radio cymunedol | 19 |

## Adran 1

# Crynodeb

## Ymgynghoriad

1.1 Ar 10 Mehefin 2008 cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar y drefn ar gyfer ystyried newidiadau i ymrwymiadau allweddol gorsafoedd radio cymunedol ("yr Ymgynghoriad"). Mae'r ymgynghoriad ar gael yn www.ofcom.org.uk/consult/condocs/regulation_cr/.

1.2 Derbyniwyd naw ymateb i'r ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi rhai neu'r cyfan o'r drefn arfaethedig, a chynigiodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau ychwanegol. Ni wnaeth un ymatebydd gadarnhau a oedd yn fodlon i'w fanylion fod ar gael yn gyhoeddus; felly, rydym wedi ei drin fel ymateb cyfrinachol. Nid oedd yr un o'r ymatebion eraill yn gyfrinachol.

## Ymrwymiadau allweddol

1.3 Mae gan bob gorsaf radio set o 'ymrwymiadau allweddol' sydd yn ffurfio rhan o'i thrwydded. Mae'r 'ymrwymiadau allweddol' yn crynhoi nodau craidd pob gwasanaeth a sut y bydd yn diwallu'r gofynion deddfwriaethol neilltuol sydd yn berthnasol i radio cymunedol.

1.4 Mae'r ddogfen ' ymrwymiadau allweddol' yn cynnwys:

- disgrifiad o'r gymuned sydd i'w gwasanaethu;
- crynodeb o gymeriad y gwasanaeth ( disgrifiad byr o nodau'r orsaf);
- disgrifiad o wasanaeth rhaglen;
- amcanion ennill cymdeithasol (yn cynnwys sut y bydd yr orsaf yn bodloni'r gofynion ennill cymdeithasol a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, ac unrhyw amcanion ennill cymdeithasol y gwasanaeth);
- trefniadau mynediad a chyfranogiad; a
- mecanweithiau i sicrhau atebolrwydd i'r gymuned darged.

## Penderfyniad Ofcom

1.5 Bydd Ofcom yn gweithredu'r drefn a gynigir yn yr ymgynghoriad, gyda'r newidiadau canlynol:

- Mae Ofcom yn cytuno gydag ymatebwyr y dylai'r penderfyniad os yw newid arfaethedig yn sylweddol ai peidio cael ei wneud ar sail achos wrth achos.
- Os yw newid arfaethedig yn cael ei ystyried yn sylweddol bydd angen ymgynghori. Pwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol mewn achosion o'r fath.

## Proses ar gyfer ystyried ceisiadau i newid ymrwymiadau allweddol

1.6 Gall gorsafoedd radio cymunedol gyflwyno cais am newidiadau trwy ddefnyddio'r 'ffurflen gais newid ymrwymiadau allweddol' sydd ar gael ar wefan Ofcom ac yn atodiad 1 yn y ddogfen hon.

1.7 Wrth dderbyn cais am newid bydd Ofcom yn ei ystyried yn erbyn pump o feini prawf statudol (gweler paragraff 2.5) ac o dan bump o feini prawf polisi ychwanegol (gweler paragraff 2.9)

1.8 Mae'r maen prawf cyntaf yn y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ystyried a ydy'r newid y gofynnwyd amdano yn un a fyddai 'yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol' ai peidio. Caiff pob asesiad ynglŷn ag ydy newid yn 'sylweddol' ai peidio ei ystyried ar sail achos wrth achos.

1.9 Os caiff newid arfaethedig ei ystyried yn sylweddol yna bydd angen ymgynghoriad, a gall y newid ei gymeradwyo os yw'n bodloni un o'r pedwar o feini prawf statudol sydd yn weddill. Os ystyrir nad yw cais yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf deddfwriaethol, ni ellir ei gymeradwyo.

1.10 Os oes ymgynghoriad ar y newid arfaethedig bydd Ofcom yn cyhoeddi datganiad yn nodi ffurflen cais am newid y ceisydd ac yn gwahodd sylwadau ar y cynigion o dan y meini prawf deddfwriaethol. Bydd yr orsaf radio dan sylw yn gorfod rhoi cyhoeddusrwydd i'w chais am newid (trwy er enghraifft, gyhoeddiadau rheolaidd ar yr awyr a negeseuon amlwg ar ei gwefan) ac ymgynghoriad Ofcom ar y mater hwn, yn cynnwys sut i ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd y cyfnod ymgynghori (fel rheol) yn para pedair wythnos.

1.11 Pan fo'r ymgynghoriad wedi cau, caiff penderfyniad ei wneud gan Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom gyda chyfeiriad at yr ymatebion i'r ymgynghoriad, y meini prawf statudol a'n meini prawf polisi ychwanegol. Cyhoeddir penderfyniadau ar adran radio cymunedol gwefan Ofcom a'r newidiadau priodol a wnaethpwyd i'r dogfennau trwydded.

1.12 Os oes ymgynghoriad, gall unrhyw newidiadau ond cael ei gymeradwyo os maent yn bodloni un o'r pedwar meini prawf statudol. Fodd bynnag, mae'r broses ddeddfwriaethol yn galluogi Ofcom i dderbyn y newidiadau arfaethedig ai peidio hyd yn oed os yw'n bodloni un o'r meini prawf.

## Sicrhau cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau allweddol

1.13 Mae'r datganiad hwn hefyd yn esbonio mecanweithiau Ofcom ar gyfer sicrhau bod gorsafoedd yn cyflwyno eu hymrwymiadau allweddol. Adroddiadau blynyddol gorsaf, ymchwiliad cwynion a samplo cynnwys yw'r rhain.

1.14 Os, yn dilyn cwyn neu samplo cynnwys, neu o ganlyniad i wybodaeth a dderbyniwyd fel rhan o adroddiadau blynyddol gorsaf radio cymunedol, y mae Ofcom yn credu y gall gorsaf fod yn methu â chyflwyno'r amcanion a nodir yn ei ymrwymiadau allweddol, bydd yn gweithredu ei drefn cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau allweddol.

1.15 Bydd hyn yn golygu bod Ofcom yn cysylltu â'r orsaf i drafod y rhesymau dros beidio â chyflwyno ac efallai y bydd angen gohebiaeth bellach yn nodi sut y gall yr orsaf ddatrys y mater. Mewn rhai amgylchiadau gall Ofcom ystyried cyhoeddi 'cerdyn

melyn' i ddangos difrifoldeb y broblem a chaiff hynny ei godi dim ond pan fo materion wedi'u cywiro. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen ystyried sancsiwn statudol (gweler paragraffau 4.23 a 4.25).

## Adran 2

# Cefndir

2.1 Mae gwasanaethau radio cymunedol wedi'u trwyddedu o dan delerau tri darn gwahanol o ddeddfwriaeth: Gorchymyn Radio Cymunedol 2004, Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Darlledu 1990 ("y Ddeddfwriaeth"). Mae'r Ddeddfwriaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer radio cymunedol, yn cynnwys bod gwasanaethau yn dosbarthu heb fod ar gyfer elw, yn cael eu cyflwyno i gymuned darged, yn cyflwyno amcanion ennill cymdeithasol, yn gwahodd mynediad a chyfranogiad yn y gwasanaeth ac yn atebol i'r gymuned darged.

2.2 Pan fo grŵp yn gwneud cais am drwydded radio cymunedol mae'n nodi ei gynigion ar sut y bydd yn bodloni'r amrywiol ofynion. Mae'r Ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion y ceisydd fod ynghlwm yn y drwydded, pe bai un yn cael ei chaniatáu, i sicrhau bod y cynigion yn cael eu cyflwyno. Ein dull o wneud hyn yw crynhoi cynigion ceisydd mewn dogfen 'ymrwymiadau allweddol' sydd yn ffurfio rhan o'r drwydded. Cytunir ar hyn gyda phob trwyddedai cyn i'r orsaf ddechrau darlledu.

2.3 Mae'r ddogfen 'ymrwymiadau allweddol' yn cynnwys:

- disgrifiad o'r gymuned sydd i'w gwasanaethu;
- crynodeb o gymeriad y gwasanaeth ( disgrifiad byr o nodau'r orsaf);
- disgrifiad o wasanaeth rhaglen;
- amcanion ennill cymdeithasol (yn cynnwys sut y bydd yr orsaf yn bodloni'r gofynion ennill cymdeithasol a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, ac unrhyw amcanion ennill cymdeithasol y gwasanaeth);
- trefniadau mynediad a chyfranogiad; a
- mecanweithiau i sicrhau atebolrwydd i'r gymuned darged.

2.4 Mae'r Ddeddfwriaeth yn caniatáu trwyddedai i ofyn am newid i'w 'hymrwymiadau allweddol' ac yn nodi meini prawf ar gyfer ystyried newidiadau i 'ymrwymiadau allweddol' ond mae hefyd yn rhoi'r dewis i Ofcom wrthod newidiadau hyd yn oed os bodlonir un o'r meini prawf hyn.

### Meini prawf statudol

2.5 Mae'r meini prawf statudol wedi'u nodi yn Adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (ac wedi'i ddiweddaru gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004) , ac maent fel â ganlyn:

- (a) na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;
- (b) na fyddai'r gwyriad yn culhau amrediad y rhaglenni sydd ar gael o ran gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bersonau sydd yn cynnwys y gymuned berthnasol;
- (d) bod tystiolaeth ymysg y personau sydd yn cynnwys y gymuned, bod galw sylweddol am, neu gefnogaeth sylweddol am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad;

- (e) na fyddai'r gwyriad yn niweidiol i fynediad aelodau o'r gymuned honno i'r cyfleusterau a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth ac ar gyfer hyfforddiant yn y defnydd o'r cyfleusterau hynny; neu;
- (f) na fyddai'r gwyriad yn niweidiol i gyflwyniad ennill cymdeithasol yn deillio o ddarpariaeth y gwasanaeth a ddarperir o dan y drwydded honno.

2.6 Nid yw'n ofynnol i Ofcom ymgynghori ar newid arfaethedig os ydym yn ystyried ei fod yn diwallu maen prawf (a) - h.y. na fyddai newid arfaethedig "yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol". Nid yw'r term' natur y gwasanaeth' wedi'i ddiffinio yn y Ddeddfwriaeth. Rydym yn meddwl y dylai gynnwys popeth a osodwyd allan ym mhob adran 'ymrwymiadau allweddol' o drwydded y gwasanaeth. Er clirdeb, mae hyn yn mynd tu hwnt i'r isadran yn y ddogfen ymrwymiadau allweddol a enwir yn 'natur y gwasanaeth' i gwmpasu'r holl 'ymrwymiadau allweddol.'

2.7 Gofynnodd yr Ymgynghoriad am farn ar yr hyn allai olygu newid 'sylweddol' i ddogfen 'ymrwymiadau allweddol'. Gofynnodd am farn hefyd, er mwyn darparu hyblygrwydd ymarferol i Ofcom ac unrhyw drwyddedai oedd yn dymuno gwneud newidiadau, a ddylai penderfyniadau ynglŷn ag ydy newid arfaethedig yn cael ei ystyried yn 'sylweddol' ai peidio cael eu gwneud ar sail achos wrth achos.

2.8 Os yw newid arfaethedig yn cael ei ystyried yn sylweddol yna cynhelir ymgynghoriad a gellir cymeradwyo'r newid os yw'n bodloni un o'r pedwar maen prawf statudol sydd yn weddill. Ond mae'r Ddeddfwriaeth yn rhoi dewis i Ofcom i dderbyn newid arfaethedig ai peidio, hyd yn oed os yw'n bodloni un o'r meini prawf.

2.9 Cyflwynodd yr Ymgynghoriad bump o feini prawf polisi ychwanegol arfaethedig a'r rhesymeg y tu ôl iddynt yr oedd Ofcom yn credu oedd hefyd yn bwysig i'w cymryd i ystyriaeth wrth ystyried newidiadau o'r fath.

## Meini prawf polisi Ofcom ychwanegol

2.10 Y pump meini prawf polisi ychwanegol yw:

- **Ydy'r newid arfaethedig yn gwrthdaro gyda 'nodweddion gwasanaeth' radio cymunedol (gweler atodiad 2) a nodir yn y Ddeddfwriaeth**. Mae Ofcom yn ystyried y byddai gwrthdaro o'r fath yn rhedeg yn groes i'r Ddeddfwriaeth

- **Yr amser a aeth heibio ers i'r drwydded ddechrau**. Roeddem yn cynnig y dylai gorsaf fod yn gweithredu o dan ei 'ymrwymiadau allweddol' am flwyddyn o leiaf cyn i ni ystyried newid i 'ymrwymiadau allweddol'

- **Y rheswm dros y newid**. Fe wnaethom ddweud y gall fod yn briodol i ni gymryd i ystyriaeth y math o amgylchedd y mae gorsaf yn gweithredu ynddi ac yng ngoleuni profiad efallai y bydd angen i orsaf addasu ei hymrwymiadau er mwyn gwasanaethu ei chymuned darged yn well.

- **Graddau effaith newid ar gymeriad y gwasanaeth**. Fe wnaethom ddweud y bydd angen gwneud arfarniad ar sail sain gyffredinol yr orsaf yn ogystal ag ydy'r newid yn debygol o effeithio ar gyflwyniad gwasanaeth priodol i'r gymuned darged dan sylw, a pha effaith a gaiff y newid ar gyflwyniad gweithgarwch oddi ar yr awyr fel amcanion ennill cymdeithasol.

- **Osgoi 'ymgripiad fformat'**. Fe wnaethom ddweud y byddem yn effro i'r posibilrwydd y gallai cyfres o fân newidiadau esgor ar newid sylweddol ac y byddem felly yn

cymryd i ystyriaeth effaith unrhyw newid arfaethedig yng nghyd-destun newidiadau blaenorol.

2.11 Nododd yr Ymgynghoriad hefyd broses arfaethedig Ofcom ar gyfer ystyried ceisiadau am newidiadau a gofynnwyd am sylwadau ar ei effeithlonrwydd a'i briodoldeb.

## Adran 3

# Ymatebion i'r Ymgynghoriad

## Cyflwyniad

3.1 Gofynnodd yr Ymgynghoriad am ymatebion i dri chwestiwn (gweler isod) mewn perthynas â'r drefn arfaethedig ar gyfer newidiadau i ymrwymiadau allweddol.

3.2 Cafwyd naw ymateb i'r Ymgynghoriad, un ohonynt wedi'i drin yn gyfrinachol (ni wnaeth yr ymatebydd gadarnhau a oeddent yn fodlon i'w manylion gael eu gwneud yn gyhoeddus ai peidio). Yr ymatebwyr cyhoeddus oedd: the Community Media Association (CMA), Gateway FM a D Lawrence Consulting, NR5 Project / Future Radio (NR5), Panjab Radio / Asian fx, (Panjab Radio) R Perry (unigolyn), RadioCentre, Radio Regen a Soundwork. Mae'r ymatebion yma ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/condocs/regulation_cr/

*C1 Ydych chi'n cytuno bod newid arfaethedig yn debygol o fod yn sylweddol os byddai'n newid y gymuned darged, ac/neu newid y paragraff 'cymeriad gwasanaeth' yn yr 'ymrwymiadau allweddol' ac/neu fel arall angen ei benderfynu ar sail achos wrth achos?*

## Sylwadau ymatebwyr

3.3 Roedd ymatebwyr a atebodd gwestiwn 1 ar y cyfan yn gefnogol i gynnig Ofcom er bod nifer wedi cynnig sylwadau ychwanegol.

3.4 Dywedodd CMA, Panjab Radio, a NR5 y dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar sail achos wrth achos.

3.5 Dywedodd CMA ei fod yn credu y gall fod achosion lle mae newid arfaethedig yn ymddangos yn sylweddol ond nad yw efallai yn ymarferol. Dyfynnodd enghraifft botensial lle roedd cymuned darged gorsaf wedi newid dros amser, allai olygu bod 'yr orsaf yn parhau i wasanaethu'r gymuned er gyda nodweddion gwahanol nag a oedd yn wir pan dderbyniwyd y cais gwreiddiol'. Ond dywedodd CMA y dylai Ofcom mewn amgylchiadau o'r fath sicrhau bod tystiolaeth glir bod hynny'n wir.

3.6 Dywedodd NR5 y gallai newid bychan i gymuned darged gorsaf gael effaith cyfyngedig ar ymrwymiadau allweddol, os oedd, er enghraifft y gymuned darged wedi'i ehangu i gynnwys cymunedau newydd/yn datblygu o fewn ardal ddarlledu'r orsaf. Rhybuddiodd yn erbyn rhagor o newidiadau sylweddol allai effeithio ar natur benodol gorsaf a'r gallu i gyflwyno ennill cymdeithasol. Roedd yn neilltuol o bryderus am wanhau ymrwymiadau hyfforddiant, hygyrchedd ac atebolrwydd.

3.7 Dywedodd Panjab Radio y byddai newid i'r gymuned darged yn newid nod yr orsaf yn llwyr. Roedd yn bryderus y byddai cynnydd mewn cystadleuaeth yn effeithio ar wasanaethau masnachol gan y byddai ganddynt fwy o gostau cyffredinol 'gan nad ydynt yn derbyn unrhyw gyllid gan y llywodraeth' ac y dylai Ofcom gymryd i ystyriaeth effaith unrhyw newidiadau ar orsafoedd eraill.

3.8 Awgrymodd RadioCentre y byddai unrhyw newid mesuradwy i bolisïau allbwn cerddoriaeth a siarad gorsaf gymunedol yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol a dylai felly fod yn destun craffu gan Ofcom.

3.9 Roedd Radio Regen yn cefnogi cyflwyniad CMA gan ychwanegu ei fod yn credu bod rhaid i Ofcom gael ei fodloni bod y rhesymau dros y newid arfaethedig wedi'u gwreiddio yn y gymuned ac nid, er enghraifft, yn rheolaeth yr orsaf yn unig.

3.10 Dywedodd Soundwork er y gallai newid fod yn 'broses ryddhaol' roedd yn bwysig peidio â cholli'r ethos oedd yn arwain radio cymunedol.

## Ymateb Ofcom

3.11 Yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd, mae Ofcom yn ei hystyried yn briodol i asesu a yw unrhyw newid potensial i ymrwymiadau allweddol yn 'sylweddol' ai peidio ar sail achos wrth achos.

3.12 Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn yr Ymgynghoriad, newidiadau i'r gymuned darged neu gymeriad elfennau gwasanaeth yr ymrwymiadau allweddol, wedi'u gwneud i ddangos y gellid ystyried y newidiadau hynny fel rhai sylweddol. Ond mae Ofcom yn cytuno gyda sylwadau NR5 a RadioCentre y gallai newidiadau i hyfforddiant, hygyrchedd ac atebolrwydd (NR5) a cherddoriaeth a siarad (RadioCentre) fod yn sylweddol. Mewn gwirionedd gellid ystyried newidiadau i unrhyw ran o'r ymrwymiadau allweddol fel rhai sylweddol, yn dibynnu ar yr union gynnig. Ond nid yw Ofcom yn cytuno y dylai 'newid mesuradwy' i allbwn cerddoriaeth a siarad gael ei ystyried yn sylweddol yn awtomatig – fel yr awgrymodd RadioCentre – gan y gallai hyn gyfeirio at newid bychan iawn mewn allbwn.

3.13 O ran y pwyntiau a godwyd gan Radio Regen, mae Ofcom yn cytuno ei fod yn bwysig bod gan unrhyw newidiadau arfaethedig y diben pennaf o wasanaethu cymuned darged yr orsaf. Byddai meini prawf polisi ychwanegol Ofcom a ddefnyddir wrth ystyried ceisiadau o'r fath yn cynnwys ystyriaeth o'r graddau y byddai newidiadau yn diwallu 'nodweddion gwasanaeth' radio cymunedol fel y'u diffinnir gan y Ddeddfwriaeth (gweler atodiad 2) – ni fyddai unrhyw newid sydd yn gwrthdaro â nodweddion o'r fath yn cael ei ganiatáu.

3.14 Trafodir effaith potensial newidiadau arfaethedig ar orsafoedd eraill isod..

*C2 Ydych chi'n cytuno gyda phob un o'r pump o feini prawf ychwanegol y mae Ofcom yn bwriadu eu gosod ar unrhyw geisiadau ar gyfer newidiadau i 'ymrwymiadau allweddol'? Os na, pam?*

## Sylwadau Ymatebwyr

3.15 Fel gyda'r cwestiwn cyntaf, roedd ymatebwyr a atebodd yr ail gwestiwn yn tueddu i gefnogi cynigion Ofcom, er bod nifer wedi cynnig sylwadau ychwanegol.

3.16 Dywedodd Panjab Radio / Asian fx bod ymgynghori gyda'r gymuned yn bwysig ac roedd yn bryderus am y broses a amlinellwyd yn yr Ymgynghoriad ar gyfer cymeradwyo newidiadau heb ymgynghoriad neu ddilyn trefn ymgynghori byrrach.

3.17 Cytunodd NR5 Project / Future Radio bod blwyddyn o leiaf yn briodol cyn y gallai gorsaf ofyn am newid i'w ymrwymiadau allweddol. Awgrymodd hefyd, yn dilyn unrhyw addasiad, na ddylid caniatáu unrhyw newidiadau pellach am o leiaf blwyddyn arall.

3.18 Roedd RadioCentre yn dadlau y dylid ychwanegu meini prawf pellach, sef effaith economaidd y newid ar wasanaethau lleol eraill, yn enwedig gorsafoedd radio

masnachol bach. Roedd RadioCentre yn cydnabod nad yw Ofcom 'yn gyfreithiol rhwymedig i ystyried hyn yng nghyd-destun newidiadau trwydded o dan adran 106 o Ddeddf 1990, credwn fod darllen naturiol ar draws o 105(3)'

3.19 Dywedodd Radio Regen ei fod yn amheus a oedd cymunedau'n newid yn ddigon sylweddol mewn dwy neu dair blynedd i gyfiawnhau newid ar y sail hon ac awgrymodd y dylai Ofcom ofyn i orsafoedd oedd yn gofyn am newid o'r fath pam nad oeddent wedi bod yn ymwybodol o newidiadau yn y gymuned ar adeg eu cais. Roedd Radio Regen hefyd yn meddwl y dylai Ofcom fod yn neilltuol o ofalus o newidiadau oedd yn ceisio lleihau lefel allbwn siarad gorsaf, oherwydd yn gyffredinol roedd llawer o ennill cymdeithasol gorsaf yn cael ei gyflwyno trwy allbwn siarad.

## Ymateb Ofcom

3.20 Mae Ofcom yn nodi sylwadau Radio Regen nad yw cymuned yn debygol o newid yn sylweddol dros ddwy i dair blynedd (sef cyfnod nodweddiadol o amser rhwng cais am drwydded a diwedd blwyddyn gyntaf y gwasanaeth). Fodd bynnag gall gorsafoedd ofyn am newidiadau am amrediad o resymau, ac nid yw'r cyfan yn berthynol i newidiadau yn y gymuned darged.

3.21 O ran effaith economaidd potensial ar wasanaethau radio lleol eraill mae Ofcom yn cydnabod pryderon RadioCentre a Panjab Radio ac yn nodi arsylwadau RadioCentre bod asesiad effaith o'r fath yn ddyletswydd ar bwynt trwyddedu yn unig – nid oes gofyniad deddfwriaethol tebyg wrth edrych ar newidiadau i'r gwasanaeth trwyddedig.

3.22 Mae Ofcom yn cydnabod pryderon RadioCentre ond yn credu bod meini prawf eraill a fydd yn gymorth i leddfu yn erbyn, er enghraifft, y tebygolrwydd o Ofcom yn cytuno i newid i wasanaeth radio cymunedol trwyddedig a fyddai yn effeithio yn economaidd yn sylweddol ar orsafoedd eraill.

3.23 Mae'r meini prawf statudol yn cynnwys ystyriaeth a fyddai newid o'r fath yn culhau'r amrediad o raglenni sydd ar gael yn lleol ai peidio. Ymhellach, fel y nodwyd uchod, mae meini prawf ychwanegol Ofcom yn cynnwys asesiad o'r graddau y byddai newidiadau yn diwallu 'nodweddion gwasanaeth' radio cymunedol fel y'u diffinnir yn y Ddeddfwriaeth. Rhaid i unrhyw orsaf sydd yn newid ei ymrwymiadau allweddol sicrhau ei bod yn parhau yn wasanaeth radio cymunedol gyda'r holl ennill cymdeithasol perthnasol a'r rhwymedigaethau eraill ynghlwm â hyn – fel gwasanaethu cymuned neu gymunedau sydd wedi'u tan wasanaethu. Byddwn hefyd yn ystyried y rhesymau dros y newid arfaethedig ac yn ofalus ynglŷn â chaniatáu cyfres o newidiadau sydd yn arwain at 'ymgripiad fformat'.

3.24 Mae'r potensial am gyfnod ymgynghori wedi'i ildio neu ei fyrhau yn cael ei drafod isod.

*C3 Oes gennych unrhyw gynigion pellach ar gyfer gwneud y weithdrefn yn fwy effeithiol ac/neu yn fwy priodol, yr hoffech eu dwyn i'n sylw?*

## Sylwadau Ymatebwyr

3.25 Roedd CMA a NR5 yn teimlo y dylid dosbarthu unrhyw ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ymrwymiadau allweddol yn eang, yn enwedig i aelodau'r gymuned darged. Awgrymodd CMA y dylid cael mesurau diogelwch i amddiffyn yn erbyn ymatebion blinderus potensial i ymgynghoriadau o'r fath. Dywedodd CMA hefyd ei bod yn bwysig bod y penderfyniad terfynol ar ganiatáu newidiadau neu beidio yn cael ei wneud gan Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom fel rhywbeth naturiol

3.26 Dywedodd NR5 y gall fod achosion lle roedd newidiadau arfaethedig yn bodloni un o'r meini prawf statudol ond mewn pethau eraill yn niweidiol i'r cymunedau dan sylw.

3.27 Roedd Panjab Radio yn cydnabod y gallai newid fod yn angenrheidiol ond roeddent yn annog bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu pwyso yn erbyn cais radio cymunedol gwreiddiol yr orsaf i farnu faint o wahaniaeth fyddai a phwy fyddai'n cael eu heffeithio. Awgrymodd hefyd bod aelod o dîm Ofcom yn ymweld â'r orsaf sydd yn gofyn i asesu'r angen am, a gallu'r orsaf am newid.

3.28 Dywedodd R Perry (unigolyn preifat) nad oedd nifer o orsafoedd radio cymunedol yn darparu mynediad cywir i rai mewn cadeiriau olwyn neu gyda symudedd cyfyngedig. Dywedodd na ddylai Ofcom roi trwyddedau i orsafoedd nad oeddent yn barod i gadw at y Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995 & 2005) a bod Ofcom wedi gwneud camgymeriad trwy roi trwyddedau i'r gorsafoedd hynny nad oeddent yn darparu mynediad.

3.29 Nododd RadioCentre bwysigrwydd ymarferoldeb mewn dylunio ymagweddau rheoleiddiol. Fodd bynnag dywedodd bod gwahaniaethau rhwng y ddau sector (masnachol a chymunedol) yn enwedig newydd-deb cymharol radio cymunedol, yn golygu y dylai rheoliad radio cymunedol barhau yn 'ddigon gronynnog'.

3.30 Dywedodd Radio Regen ei bod yn bwysig nad oedd yr ymgynghoriad gyda'r gymuned ehangach yn cael ei adael yn unig i'r orsaf yn gofyn am y newidiadau gan y gall yr orsaf fod yn methu ag ymgysylltu gyda rhannau allweddol o'i chymuned darged. Awgrymodd gysylltu gyda grwpiau ambarél sector gwirfoddol lleol fel un dull o gael barn; nododd hefyd y gellid gofyn i awdurdodau lleol am eu barn ond y gallai ffactorau gwleidyddol liwio ymatebion.

3.31 Mynegodd Radio Regen bryder am y potensial o ildio ymgynghoriad fel y nodir ym mharagraff 3.15 o Ymgynghoriad Ofcom. Dywedodd bod buddiannau gorsaf yn eilradd i rai'r gymuned yr oedd yn ei gwasanaethu ac mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid gweithredu ildiadau.

3.32 Dywedodd Radio Regen y dylai Ofcom wneud popeth y gall i wneud yn siŵr nad yw gorsafoedd yn cael eu gwanhau neu hyd yn oed eu 'herwgipio' gan bobl nad yw buddiannau'r gymuned yn bwysig iddynt, er enghraifft amddiffyn rhag 'masnachu drws cefn'. Ym mar Radio Regen mae'n annhebygol y bydd nifer o achosion cyfreithlon lle y gellir cyfiawnhau newidiadau i ymrwymiadau allweddol.

3.33 Cynigiodd Soundwork rai sylwadau ar adnewyddu trwydded ar ddiwedd y drwydded pum mlynedd gan awgrymu y dylai proses ar gyfer adnewyddu o'r fath gynnwys partneriaid lleol, darparwyr gwasanaeth a chefnogwyr yn asesu effaith yr orsaf. Ychwanegodd bod y sector radio cymunedol yn dal i ddatblygu ac y bydd ymrwymiadau allweddol 'yn adlewyrchu posibiliadau potensial bob amser a bydd bob amser wedi'i gyfyngu gan gyfyngiadau mewnbwn creadigol, adnoddau ariannol a chefnogaeth y gymuned'.

3.34 Roedd un ymatebydd cyfrinachol yn dadlau bod gormod o reoliad wedi'i osod ar orsafoedd cymunedol a chan ddyfynnu cystadleuaeth gan orsafoedd ar-lein (rhai'n cael eu cefnogi gan gyrff masnachol mawr) dywedodd y dylid cael gwared â'r pum maen prawf statudol.

## Ymateb Ofcom

3.35 O ran y pryderon a godwyd gan ymatebwyr am gyfnod ymgynghori wedi'i fyrhau neu ei ildio pe bai oedi yn debygol o fod yn niweidiol i fuddiannau'r trwyddedai, mae Ofcom yn nodi bod hwn yn bosib o dan y ddeddfwriaeth. (Ond dylai rhan ddeiliaid nodi mai prin iawn y mae'r drefn hon wedi'i defnyddio yn y gorffennol wrth ystyried newidiadau i fformatau gorsafoedd masnachol).

3.36 Mae Ofcom yn cytuno y dylai ymgynghoriad fod yn agored i gymaint o aelodau o'r gymuned â phosibl ac mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu y dylai hysbyseb o ymgynghoriad cael ei gyhoeddi mewn modd sy'n ymweld i Ofcom i fod yn addas er mwyn tynnu sylw'r bobl briodol sydd, ym marn Ofcom, yn debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau. Mae'r broses rydym yn cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i orsafoedd roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad o fewn y gymuned a gallai gorsaf sydd yn gofyn am newidiadau gryfhau ei dadl trwy ddangos cefnogaeth y gymuned a rhan ddeiliaid lleol. Mae ei gwneud yn ofynnol i orsaf roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad trwy, er enghraifft cyhoeddiadau rheolaidd ar yr awyr a negeseuon amlwg ar ei gwefan, yn rhoi mwy o rwymedigaeth, ond un priodol, ar orsafoedd cymunedol o'i gymharu â gwasanaethau masnachol sydd eisiau newidiadau i'w fformatau. Credwn na fyddai gweithredu rheoleiddiol pellach i ddarganfod barn randdeiliaid yn ddefnydd priodol o adnoddau.

3.37 Mae Ofcom yn cytuno y dylai'r penderfyniad i gytuno i newid ai peidio o dan unrhyw un o'r meini prawf b) i f) – h.y. un a benderfynwyd sydd yn sylweddol ac felly yn destun ymgynghoriad – gael ei gymryd gan Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom.

3.38 Mae Ofcom yn nodi'r pryderon a godwyd gan NR5 y gall newidiadau ddiwallu un o'r gofyniadau statudol ond yn niweidio i'r gymuned berthnasol fel arall. Fodd bynnag mae'r Ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i Ofcom i wrthod ceisiadau newid o'r fath hyd yn oed os yw un neu ragor o'r meini prawf statudol yn cael eu diwallu.

3.39 O ran yr awgrym y dylai Ofcom ymweld â gorsafoedd sydd yn gwneud ceisiadau o'r fath, gall Ofcom benderfynu ymweld â gorsafoedd ar adegau. Ond ni chredwn y bydd yn angenrheidiol yn y mwyafrif o achosion.

3.40 O ran y cwestiwn o fynediad i'r anabl i orsafoedd cymunedol mae'n bwysig nodi nad oes gan Ofcom y pŵer i blismona deddfwriaeth anabledd. Ond nodwn fod gorsafoedd wedi'u trwyddedu sydd yn benodol yn ceisio gwasanaethu'r gymuned anabl, ac mae llawer mwy yn gwneud darpariaethau ar gyfer mynediad. Mae Ofcom yn croesawu hyn ac yn nodi ei fod yn ystyried darpariaeth mynediad i'r gymuned targed yn ystod y broses trwyddedu, fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddf. Fodd bynnag mae'n bwysig nodi nad yw Ofcom wedi'i bweru i orfodi deddfwriaeth anabledd.

3.41 Nodwn farn Soundwork y dylid ystyried ymrwymiadau allweddol 'fel posibiliadau potensial' yn amodol i amrywiol gyfyngiadau. Er ein bod yn cydnabod yr amgylchedd newidiol heriol y mae gorsafoedd cymunedol yn gweithredu ynddynt rydym yn glir mai ymrwymiadau ydy'r rhain ac nid dyheadau. Un o ddibenion y broses newid yw caniatáu i orsaf wneud newidiadau rhesymol i'r ymrwymiadau hynny cyn belled â bod hynny er budd y gymuned darged.

3.42 O ran cynigion Soundworks ar adnewyddu trwyddedau, mae'n bwysig nodi nad yw'r Ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn nodi proses ar gyfer adnewyddu trwydded. Ond rydym yn disgwyl i DCMS ymgynghori ar nifer o fân newidiadau i'r Ddeddfwriaeth a bydd hyn yn cynnwys proses ar gyfer adnewyddu trwydded radio cymunedol

3.43 Yn olaf, mewn ymateb i'r awgrym y dylid cael gwared â'r pump o feini prawf statudol yng ngoleuni'r gystadleuaeth y mae gorsafoedd cymunedol yn eu hwynebu, mae' pump o feini prawf statudol yn ofyniad deddfwriaethol ac felly mae Ofcom yn rhwymedig yn gyfreithiol i'w hystyried.

## Adran 4

# Penderfyniad a chamau nesaf

## Y broses ar gyfer ystyried ceisiadau ar gyfer newidiadau i ymrwymiadau allweddol

4.1 Daw'r broses a nodir isod i rym ar ddiwrnod cyhoeddi'r datganiad hwn (18 Medi 2008).

4.2 Dylid cyflwyno unrhyw gais am newid(iadau) i 'ymrwymiadau allweddol' ar 'ffurflen gais newid ymrwymiadau allweddol'. Mae copi o'r ffurflen gais yn atodiad 1 o'r ddogfen hon ac mae ar gael ar wefan Ofcom www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/commun_radio <http://www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/commun_radio> . Dylai gorsafoedd radio cymunedol lawr lwytho'r ffurflen, ei llenwi a'i chyflwyno ar gyfer ei hystyried gan Ofcom. Bydd y ffurflen ar gael hefyd trwy e-bost neu gopi caled gan Dîm Polisi Radio a Thrwyddedu Darlledu (trwy e-bost: community.radio@ofcom.org.uk <mailto:community.radio@ofcom.org.uk> , ffôn 020 7981 3886 neu wrth lythyr at Dîm Polisi Radio a Thrwyddedu Darlledu, 5ed Lawr, ofcom, Tŷ Riverside, 2a heol Bont Southwark, Llundain, SE1 9HA.

4.3 Wrth dderbyn cais am newid bydd Ofcom yn ei ystyried yn erbyn y meini prawf statudol (paragraff 2.5) a'r meini prawf ychwanegol (paragraff 2.9). Yr ystyriaeth gyntaf yw a fyddai newid arfaethedig yn newid cymeriad gwasanaeth yr orsaf yn sylweddol. Os yw Ofcom yn ystyried mai dyma'r achos, yna bydd angen i'r newid arfaethedig gael ei ystyried o dan yr ail, trydydd, pedwerydd neu bumed maen prawf statudol (ym mharagraff 2.5) a bydd angen cynnal ymgynghoriad. Ar y pwynt hwn bydd Ofcom yn gofyn am gadarnhad gan y ceisydd a yw'n dymuno parhau gyda'r cais (ac os felly, a yw'n dymuno addasu neu ddisodli ei gyflwyniad yng ngoleuni'r anghenraid i'w wneud yn gyhoeddus).

4.4 Os oes ymgynghoriad ar y newid arfaethedig, bydd Ofcom yn cyhoeddi ffurflen gais newid y ceisydd ac yn gwahodd sylwadau ar y cynigion o dan y meini prawf deddfwriaethol. Nid oes angen i Ofcom gyhoeddi unrhyw wybodaeth gyfrinachol. Bydd gofyn i'r orsaf radio gymunedol sydd yn gwneud cais roi cyhoeddusrwydd i'w chais am newid ac ymgynghoriad Ofcom ar y mater hwn, yn cynnwys sut i ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd y cyfnod ymgynghori (fel rheol) yn para am bedair wythnos.

4.5 Dylid nodi y gall Ofcom gymeradwyo newid o dan unrhyw un o feini prawf (b) (d) (e) ac (f) heb ymgynghoriad, neu ar ôl ymgynghoriad o lai na 28 diwrnod, os ydym yn ystyried y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu ragor, yn esgor ar oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau'r trwyddedai.

4.6 Pan fo'r ymgynghoriad wedi cau bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom gyda chyfeiriad at yr ymatebion i'r ymgynghoriad, y meini prawf statudol a'i feini prawf polisi ychwanegol. Os ystyrir nad yw cais yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf statudol ni ellir ei gymeradwyo. Os yw newid arfaethedig yn cael ei ystyried fel un sylweddol, bydd ymgynghoriad yn digwydd a gall y newid cael ei gymeradwyo os yw'n bodloni un o'r pedwar meini prawf statudol sy'n weddill. Fodd bynnag mae'r Ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i Ofcom derbyn neu wrthod newid arfaethedig hyd yn oed os yw'n diwallu un o'r gofynion.

4.7 Bydd y trwyddedwr yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad ac yna fe gyhoeddir penderfyniadau ar adran radio cymunedol gwefan Ofcom a'r newidiadau priodol a wnaethpwyd i'r drwydded.

## Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ymrwymiadau allweddol

4.8 Mae gan Ofcom nifer o fecanweithiau ar gyfer sicrhau bod gorsafoedd yn cyflwyno eu hymrwymiadau allweddol. Adroddiadau blynyddol gorsafoedd, ymchwilio i gwynion a samplo cynnwys yw'r rhain. Nodir y mecanweithiau hyn isod, ac yna ceir gorolwg o'r broses gydymffurfio y byddwn yn ei dilyn os nad yw gorsaf yn diwallu ei hamcanion.

Adroddiadau blynyddol

4.9 Mae'n ofynnol i drwyddedai radio cymunedol gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd a chyflwyniad yn erbyn eu hymrwymiadau allweddol. Mae gennym batrymlun ar gyfer yr adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i drwyddedai ei llenwi. (mae ffurflen ar wahân ar gyfer gwybodaeth ariannol, gweler isod). Hefyd mae angen i drwyddedai gadw gwybodaeth ar ffeil ar gyfer ei archwilio pe bai angen i ni ei weld. Mae hyn yn berthynol i gyflwyniad ymrwymiadau allweddol (er enghraifft cofnodion hyfforddi) yn ogystal â chofnodion ariannol. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gall gorsaf gyfiawnhau ei weithgarwch rhag ofn y ceir cwyn trwy sicrhau bod ganddi gofnod llawn o'r gwaith y mae wedi'i wneud tuag at gyflwyno ei rwymedigaethau trwydded. Dylai unrhyw orsaf sy'n dymuno cyfrif amser gwirfoddolwyr, ddarllen canllawiau Ofcom ar fewnbwn gwirfoddol yn www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/commun_radio <http://www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/commun_radio>

4.10 Mae cyfyngiadau cyllido mewn deddfwriaeth radio cymunedol a adlewyrchir ym mhob trwydded. Mae angen i ni wirio eu bod yn cael eu glyn u atynt ar sail flynyddol. Maent fel â ganlyn:

- Daw mwyafswm o 50% o incwm blynyddol o gynnwys hysbysebion y telir amdanynt a nawdd yn y gwasanaeth; neu
- Mae llai na 50% o'r incwm blynyddol yn dod o gynnwys yn y gwasanaeth hysbysebu y telir amdanynt a nawdd; neu
- Gwaharddiad ar gynnwys unrhyw hysbysebion y telir amdanynt a nawdd.

4.11 Bydd Ofcom hefyd yn sicrhau nad yw unrhyw drwyddedwr wedi derbyn mwy 'na 50% o'i incwm o un ffynhonnell.

4.12 Mae'n ofynnol i bob gorsaf gwblhau a chyflwyno adroddiad ariannol bob blwyddyn fel ein bod yn allu barnu ei bod wedi aros o fewn y cyfyngiadau ariannol a nodir gan ddeddfwriaeth ai peidio. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fel prif ffynonellau incwm a gwariant. Gall methu â chadw at y cyfyngiadau cyllido fod yn torri amod trwydded.

Cwynion

4.13 Caiff cwynion am safonau mewn allbwn rhaglen a materion tegwch a phreifatrwydd eu trin yn yr un modd ag a wneir gyda darlledwyr eraill. Yn y lle cyntaf gall yr achwynydd gysylltu gyda'r orsaf dan sylw yn uniongyrchol. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon gyda'r ymateb neu os yw'n dymuno codi'r mater gydag Ofcom yn uniongyrchol gellir cyflwyno cwyn trwy ein gwefan

(www.ofcom.org.uk/complain/progs/ <http://(www.ofcom.org.uk/complain/progs/>) neu trwy lythyr ffôn neu e-bost am unrhyw raglen a ddarlledwyd. (Gweler manylion cyswllt uchod).

4.14 Gellir hefyd wneud unrhyw gwyn am fethiant gorsaf i gyflwyno ei hymrwymiadau allweddol yn uniongyrchol i'r orsaf radio dan sylw (mae manylion cyswllt ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/Community/community-main.html <http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/Community/community-main.html>). Neu gellir cyflwyno cwyn i dîm Trwyddedu Darlledu a Pholisi Radio Ofcom (Gweler manylion cyswllt uchod). Os o ganlyniad yr ydym yn darganfod fod problem byddwn yn codi'r mater gyda'r orsaf dan sylw (gweler y drefn cydymffurfio a amlinellir isod)

4.15 Mae'n ofynnol i holl drwyddedai radio cymunedol gadw at ofynion y Côd Darlledu (www.ofcom.org.uk/tv/ifi/codes/bcode/) a chôd Awdurdod Safonau Hysbysebu (http://www.asa.org.uk/asa/).

Samplo cynnwys

4.16 Er mwyn gwirio bod gorsafoedd radio cymunedol yn darlledu yn unol â gofynion eu hymrwymiadau allweddol gall Ofcom o dro i dro wrando ar allbwn gorsaf. Gelwir hyn yn 'samplo cynnwys'. Gall samplo gorsaf neilltuol gael ei annog gan gwyn yn berthynol i ymrwymiadau allweddol neu gall fod yn rhywbeth arferol (gwiriad ar hap). Os byddwn yn penderfynu cynnal samplo cynnwys byddwn yn cysylltu gyda'r orsaf radio dan sylw i ofyn am recordiadau o allbwn. Ar ôl gorffen yr ymarferiad byddwn yn cyhoeddi adroddiad samplo cynnwys ar ein gwefan.

Trefn cydymffurfio

4.17 Os yw Ofcom yn credu y gall fod gorsaf yn methu cyflwyno'r amcanion a nodwyd yn ei ymrwymiadau allweddol – boed o ganlyniad i gwyn, samplo cynnwys, proses adrodd blynyddol neu reswm arall – bydd yn gweithredu ei drefn cydymffurfio ymrwymiadau allweddol.

- Byddwn yn trafod ein pryderon gyda'r orsaf gan roi disgrifiad clir o'r hyn a ystyriwn sydd heb ei gyflwyno;
- Byddwn yn gofyn yr orsaf sut y maent yn bwriadu cywiro'r sefyllfa ac yna yn nodi cynllun gweithredu cytûn i ddod â'r orsaf yn ôl yn unol â'i hymrwymiadau allweddol;
- Byddwn yn dweud wrth yr orsaf beth yw'r amserlen ar gyfer y gweithredu hwn.

4.18 Yna byddwn yn:

- Dilyn i fyny gyda gorsaf fel bo angen ac yn unol â'r amserlen yr ydym wedi'i osod, gofyn am dystiolaeth i ddangos bod y sefyllfa wedi'i gywiro.

Defnyddio rhybuddion 'cerdyn melyn' radio cymunedol

4.19 Efallai y bydd rhai problemau angen gweithredu mwy ffurfiol a gall hyn olygu cyhoeddi 'cerdyn melyn' radio cymunedol a gaiff ei godi dim ond pan fydd materion wedi'u cywiro.

4.20 Os ydym yn ystyried bod cerdyn melyn yn briodol byddwn yn defnyddio hyn fel mecanwaith ar gyfer nodi nad yw gorsaf yn perfformio o fewn ei hymrwymiadau allweddol a'n bod yn ystyried y mater yn un difrifol. Mae hyn yn caniatáu i drwyddedai ddeall y problemau a nodwyd a gofyn am esboniad os oes angen. Bydd Ofcom yn

defnyddio cardiau melyn i reoleiddio unrhyw fater ymrwymiad allweddol, nid cynnwys darlledu yn unig.

4.21 Nid yw cerdyn melyn yn sancsiwn trwydded ffurfiol (gweler isod) ond mae'n ddull defnyddiol o amlygu problem, yn enwedig un o bryder sylweddol ac sydd angen gweithredu i'w gywiro. Fel rheol penderfynir ar adolygiad cerdyn melyn ar sail achos wrth achos (gall fod angen gweithredu mwy brys ar rai problemau nag eraill). Os yw problem yn ddigon difrifol efallai y byddwn yn penderfynu peidio â chyhoeddi cerdyn melyn ond yn hytrach ystyried gosod sancsiwn. Nodir y broses ar gyfer sancsiynau isod.

4.22 Pan gyhoeddir cerdyn melyn cyhoeddir gwybodaeth amdano ar ein gwefan.

4.23 Bydd hyn yn cynnwys:

- Yr orsaf dan sylw;
- Y rheswm dros y 'cerdyn melyn';
- Dyddiad ei gyhoeddi;
- Gweithredu angenrheidiol; a
- Pryd y caiff ei adolygu

Sancsiynau

4.24 Ar adegau prin, os na chaiff problem ei chywiro o fewn y cyfyngiad amser a bennir neu os yw'n ddigon difrifol yn ei hawl ei hun, gellir ystyried gosod sancsiwn ar yr orsaf dan sylw.

4.25 Mae'r ddeddfwriaeth darlledu yn pennu pa sancsiynau y gall Ofcom ystyried eu gosod, maent yn cynnwys:

- Cyfarwyddo trwyddedai i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau;
- Gosod cosbau ariannol;
- Byrhau cyfnod y drwydded;
- Gohirio'r drwydded; neu
- Tynnu'r drwydded yn ôl.

4.26 Os caiff gweithredu o'r fath ei ystyried bydd gorsaf yn derbyn gwybodaeth am y mater mewn ysgrifen a chael y cyfle i wneud cynrychioliadau i Ofcom. Hyd yn oed os na chaiff sancsiwn ei osod mae'n bosibl y byddai'r broblem yn esgor ar gofnod o dorri trwydded. Mae toriadau trwydded yn cael eu rhoi ar ffeil yr orsaf a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth pe bai'r orsaf dan sylw yn gwneud cais am estyniad i'w thrwydded Deddf Ddarlledu cyfredol neu os gwneir cais am drwydded Deddf Darlledu arall gan ddeiliad y drwydded yn y dyfodol.

**Atodiad 1**

# Ffurflen gais newid ymrwymiadau allweddol

| | |
|---|---|
| **Enw gorsaf radio gymunedol:** | |
| **Enw'r person yn cynnig newid:** | |
| **Amlinelliad o gynigion newid(iadau) ymrwymiadau allweddol:** | |

**Gall gweithredwr trwydded radio cymunedol wneud cais i Ofcom i gael newid ymrwymiadau allweddol yr orsaf. Dylid gwneud unrhyw gais gan ddefnyddio'r cynllun a ddangosir ar y ffurflen hon a dylai fod yn unol â gweithdrefnau a gyhoeddwyd gan Ofcom ar gyfer newidiadau ymrwymiadau allweddol [i'w gytuno arno ac yna ei roi ar ein gwefan]. Mae croeso i chi gymryd cymaint o le ag yr hoffech wrth lenwi'r ffurflen hon (ehangu'r blychau neu ychwanegu gwybodaeth ar wahân, fel bo angen)**

**O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'u diwygiwyd* a newidiwyd**) gall Ofcom roi caniatâd i'r newid dim ond os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf canlynol wedi'i fodloni**

- *(a) na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*
- *(b) na fyddai'r gwyriad yn culhau amrediad y rhaglenni sydd ar gael o ran gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bersonau sydd yn cynnwys y gymuned berthnasol;*
- *(d) bod tystiolaeth ymysg y personau sydd yn cynnwys y gymuned, bod galw sylweddol am, neu gefnogaeth sylweddol am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad;*
- *(e) na fyddai'r gwyriad yn niweidiol i fynediad aelodau o'r gymuned honno i'r cyfleusterau a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth ac ar gyfer hyfforddiant yn y defnydd o'r cyfleusterau hynny; neu;*
- *(f) na fyddai'r gwyriad yn niweidiol i gyflwyniad ennill cymdeithasol yn deillio o ddarpariaeth y gwasanaeth a ddarperir o dan y drwydded honno.*

**Dim ond un o'r pum maen prawf hyn sydd angen eu bodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu'r newid arfaethedig. Ond hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu ragor o'r meini prawf statudol gall fod rhesymau (yn dibynnu ar amgylchiadau neilltuol yr achos) pam nad yw Ofcom efallai yn caniatáu'r newid arfaethedig.**

**Hefyd dylai ceiswyr nodi, o dan adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd*) rhaid i newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid y mae Ofcom yn ystyried *byddai* neu a *allai* newid cymeriad gwasanaeth yn sylweddol) os yw i'w ystyried ymhellach o dan unrhyw un o'r pedwar maen prawf arall, fod yn destun ymgynghoriad. [#].**

**Os yw Ofcom yn derbyn cais am newid ymrwymiadau allweddol ac yn ystyried *nad* yw maen prawf (a) wedi'i fodloni bydd yn gofyn am gadarnhad gan y ceisydd a yw'n dymuno parhau gyda'r cais ai peidio (ac os felly a yw'n dymuno newid neu ddisodli ei gyflwyniad yng ngoleuni'r anghenraid i'w wneud yn gyhoeddus).**

Cyflwynwch eich cyflwyniad yn y dull canlynol:

**Adran106(a) perthnasedd…**

**Adran 106 (b), (d), (e) ac (f) perthnasedd…**

**Unrhyw wybodaeth ychwanegol ac/neu dystiolaeth i gefnogi'r newid(iadau) arfaethedig.**

*Nodiadau*

* Fel y'i diwygiwyd gan adrannau 312 a 313 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003
** Fel y'u newidiwyd gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004

4.27 [#] Dylid nodi y gall Ofcom gymeradwyo newid o dan unrhyw un o feini prawf (b) (d) (e) ac (f) heb ymgynghoriad, neu ar ôl ymgynghoriad o lai na 28 diwrnod, os ydy Ofcom yn ystyried y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu ragor, yn esgor ar oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau'r trwyddedai. Gall Ofcom hefyd gael gwared, i ddibenion ymgynghoriad, unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynwyd gan y trwyddedai. Mae'n ofynnol cael ymgynghoriad dan Adran 106ZA ar gyfer maen prawf (b) a (d). Mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol cymhwyso'r gofyniad ymgynghori hwn i adrannau (e) ac (f) yn ychwanegol ar gyfer radio cymunedol.

## Atodiad 2

# Nodweddion gwasanaethau radio cymunedol

### Diffiniad o radio cymunedol

A2.1 Mae Gorchymyn Radio Cymunedol 2004 yn nodi pump ‘nodweddion gwasanaethau radio cymunedol’. Atgynhyrchir y rhain yn llawn isod. Ni ddylai unrhyw newid i ymrwymiadau allweddol fod yn groes i’r nodweddion hyn.

*(1) Mae’n nodwedd o wasanaethau radio cymunedol eu bod yn wasanaethau lleol a ddarperir yn bennaf -*

*(a)er lles aelodau o’r cyhoedd neu o gymunedau neilltuol, ac*
*(b) er mwyn cyflwyno ennill cymdeithasol,*

*yn hytrach nag ar gyfer rhesymau masnachol yn bennaf neu ar gyfer ennill ariannol neu faterol arall yr unigolion sydd yn ymwneud â darparu’r gwasanaeth.*

*(2) mae’n nodwedd o bob gwasanaeth radio cymunedol ei fod wedi’i fwriadu yn bennaf i wasanaethu un neu ragor o gymunedau (boed yn gwasanaethu aelodau eraill o’r cyhoedd hefyd ai peidio).*

*(3) mae’n nodwedd o bob gwasanaeth radio cymunedol bod y person sydd yn darparu’r gwasanaeth -*

*(a) dim yn gwneud hynny i gael elw ariannol ac*
*(b) yn defnyddio unrhyw elw a gynhyrchir wrth ddarparu’r gwasanaeth yn gyfan gwbl ac yn unig ar gyfer sicrhau neu wella darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol neu ar gyfer cyflwyno ennill cymdeithasol i aelodau o’r cyhoedd neu’r gymuned y mae’r gwasanaeth wedi’i fwriadu i’w gwasanaethu.*

*(4) Mae’n nodwedd o bob gwasanaeth radio cymunedol bod aelodau o’r gymuned y mae wedi’i fwriadu i’w gwasanaethu yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yng ngweithrediad a rheolaeth y gwasanaeth.*

*(5) Mae’n nodwedd o bob gwasanaeth radio cymunedol, mewn perthynas â darpariaeth y gwasanaeth hwnnw, bod y person sydd yn darparu’r gwasanaeth yn gwneud ei hun yn atebol i’r gymuned y mae’r gwasanaeth wedi’i fwriadu i’w gwasanaethu.*

A2.2 Nodir diffiniadau o rai o’r termau a ddefnyddir isod. Mae’r rhain hefyd wedi dod o’r Gorchymyn Radio Cymunedol 2004:

*Ystyr "cymuned" yw -*
*(a) y personau sydd yn byw neu’n gweithio neu’n derbyn addysg neu hyfforddiant mewn ardal neu leoliad arbennig, neu*
*(b) personau sydd (os ydynt yn syrthio o fewn paragraff (a) ai peidio) sydd ag un neu ragor o ddiddordebau neu nodweddion yn gyffredin*

*mae i "ennill cymdeithasol" yr ystyr a roddir [isod]*

*Mewn perthynas â gwasanaeth radio cymunedol mae 'ennill cymdeithasol' yn golygu cyflawniad, mewn perthynas ag unigolion neu grwpiau o unigolion yn y gymuned y maer' gwasanaeth wedi'i fwriadu i'w gwasanaethu, neu mewn perthynas ag aelodau eraill o'r cyhoedd, o'r amcanion canlynol -*

*(a) darpariaeth gwasanaethau darlledu sain i unigolion sydd fel arall wedi'u tan wasanaethu gan wasanaethau o'r fath,*
*(b) hyrwyddo trafodaeth a mynegi barn,*
*(c) darpariaeth (trwy gyfrwng rhaglenni yn y gwasanaeth neu fel arall) addysg a hyfforddiant i unigolion heb fod yn gyflogedig gan y person sydd yn darparu'r gwasanaeth, a*
*(d) gwell dealltwriaeth o'r gymuned neilltuol a chryfhau cysylltiadau oddi mewn iddi*

*a gall hefyd gynnwys cyflawniad amcanion eraill o natur gymdeithasol ac yn enwedig y rhai a grybwyllir [isod]*

*Yr amcanion hynny yw -*

*(a) cyflwyniad gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill o natur gymdeithasol a chynyddu a lledaenu yn ehangach wybodaeth am y gwasanaethau hynny ac am amwynderau lleol;*
*(b) hyrwyddo datblygiad economaidd a mentrau cymdeithasol*
*(c) hyrwyddo cyflogaeth;*
*(d) darparu cyfleoedd i gael profiad gwaith;*
*(e) hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol;*
*(f) hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol;*
*(g) hyrwyddo cyfranogiad dinesig a gwirfoddoli*